**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Newid yn yr Hinsawdd a Natur

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S E Keeton (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C M J Evans | E W Fitzgerald | J A Hale |
| W G Thomas | O G James | M H Jones |
| M W Locke | B J Rowlands | |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| David Hopkins | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau a Pherfformiad Corfforaethol |
| Andrew Stevens | Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Stuart Davies | Pennaeth Priffyrdd a Chludiant |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Carol Morgan | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Tom Price | Arweinydd Tîm Rheoli Llygredd |
| Mike Sweeney | Arweinydd Tîm Priffyrdd a Chludiant |
| Mark Wade | Cyfarwyddwr Lleoedd |

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Cytunodd y Panel fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2024 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

5 **Rheoli Perygl Llifogydd Lleol - Diweddariad Blynyddol**

Roedd Andrew Stevens, Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiladd a swyddogion perthnasol yn bresennol er mwyn rhoi'r diweddaraf i'r Panel ac i ateb cwestiynau. Roedd David Hopkins, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad hefyd yn bresennol.

Pwyntiau Trafod:

- Mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn cael ei llunio ar hyn o bryd a fydd yn ymgorffori'r Cynllun Gweithredu Perygl Llifogydd. Bydd hyn yn rhoi baich ariannol ychwanegol ar yr Awdurdod ac yn cynyddu llwyth gwaith.
- Mae'r gwaith i adeiladu waliau amddiffyn rhag llifogydd yn y Mwmbwls wedi hen ddechrau a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn dechrau 2025. Mae'r Panel yn falch o glywed hyn a chanmolwyd pawb a gymerodd ran am eu gwaith da iawn.
- Holodd y Panel a yw'r Awdurdod yn bwriadu cael pethau fel tanciau crynhoi dŵr yng Nghwm Tawe i atal llifogydd. Cadarnhawyd bod nodweddion gwanhau a chynlluniau storio yn cael eu defnyddio mewn llawer o gynlluniau i liniaru llifogydd a bydd yr holl ddatblygiadau newydd yn cynnwys nodweddion gwanhau.
- Mae'r Panel yn teimlo y gallai'r ffordd y mae pyllau gwanhau yn cael eu hadeiladu ar safleoedd datblygu mawr fod yn beryglus i blant, ac mae angen rhyw fath o ganllawiau cynllunio atodol. Rhoddwyd gwybod bod deddfwriaeth a safonau y mae'r Awdurdod yn eu defnyddio i gymeradwyo cynlluniau o'r fath o ran adeiladu.
- Holodd y panel Pryd fyddai'r TAN 15 newydd yn cael ei gymeradwyo ac esboniwyd bod Llywodraeth Cymru wrthi'n casglu rhagor o dystiolaeth ac yn gweithio ar y manylion, ond mae disgwyl iddo gael ei gymeradwyo'n fuan.
- Mae'r Panel yn credu y dylid annog pobl i ddefnyddio casgenni dŵr y tu allan i'w cartrefi i ddal dŵr glaw ac ychwanegu tanciau dŵr at dai fel y gellir eu defnyddio i fflysio toiledau. Rhoddwyd gwybod bod proses eisoes ar waith drwy gynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol i annog y defnydd o gasgenni dŵr etc.
- Holodd y Panel a oes rhestr flaenoriaeth ar gyfer cyllideb draenio cynnal a chadw cyfalaf ac a roddir ystyriaeth i lwybrau sy'n gorlifo yn ogystal ag isadeiledd a ffyrdd. Esboniwyd bod llawer o'r gwaith yn adweithiol ac mae blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ardaloedd lle mae llifogydd ar y ffyrdd yn bryder difrifol ac yn risg difrifol i ddefnyddwyr y priffyrdd neu i eiddo.
- Nododd y Panel fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer Blackpill ond mynegodd bryder am broblemau ar waelod Mill Lane lle mae rhywbeth yn digwydd o dan y ffordd, pibell wedi byrstio neu lyncdwll o bosib. Gofynnodd swyddogion i gwrdd ag Aelod perthnasol y Panel ar y safle i drafod.
- Gofynnodd y Panel beth sy'n cael ei wneud ynghylch llygredd sy'n mynd yn uniongyrchol i mewn i'r afon Tawe. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgysylltu'n gyson â Dŵr Cymru gyda'r nod o leihau rhai o'r mewnbynnau a'r gorlifiadau i'r afon Tawe. Ym Mae Abertawe, mae ansawdd y dŵr wedi gwella ac mae'n dda ar hyn o bryd.
- Holodd y Panel a oes ffordd o gael gwybod gan y Swyddfa Dywydd os yw cyfanswm y glaw yn codi ac esboniwyd bod data da ar wefan y Swyddfa Dywydd. Bydd y ddolen yn cael ei rhannu gyda'r Panel.
- Trafododd y Panel lifogydd ar Mumbles Road pryd bynnag y ceir glaw trwm, a gofynnodd a oes unrhyw beth yn cael ei wneud. Esboniwyd bod llawer o

lifogydd y tu allan i fynedfa'r brifysgol oherwydd rhwystr yn yr all-lif, sydd wedi'i gywiro. Ar hyn o bryd mae tîm cynnal a chadw ar y safle yn glanhau gylïau o Brynmill Lane i Lido Blackpill a bydd yr Adran yn edrych ar yr all-lif ger Ashley Road i sicrhau nad ydynt wedi'u rhwystro eto.

- Mae'r Panel yn teimlo'n gryf bod angen i staff a chynghorwyr perthnasol wneud hyfforddiant System Ddraenio Gynaliadwy. Mae swyddogion yn hapus i drefnu cwrs hyfforddi arall i'r Aelodau os oes ganddynt ddiddordeb. Dywedodd Aelod y Cabinet fod pob swyddog cynllunio wedi derbyn hyfforddiant System Ddraenio Gynaliadwy ac wedi cytuno ar yr angen am ragor o hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio o ran defnyddio System Ddraenio Gynaliadwy a'i fod yn fwy na pharod i hwyluso hyn.
- Gofynnodd y Panel i weld y rhestr goch ar gynnal gridiau, cyrsiau dŵr, mannau problemus o ran gylïau etc ac esboniwyd nad oes gan yr Adran unrhyw broblemau gyda'i rhannu.
- Holodd y Panel a oes mwy o waith glanhau yn cael ei wneud yn yr hydref oherwydd dail yn cwympo neu a oes llawer o waith drwy gydol y flwyddyn. Esboniwyd ei fod yn barhaus ond mae'n cynyddu yn ystod misoedd yr hydref oherwydd mae angen clirio dail sydd wedi cwympo.
- Trafododd y Panel lifogydd arfordirol, yn enwedig y rhodfa ar Bont Trafalgar a gafodd ei chau oherwydd llifogydd y gaeaf diwethaf. Gofynnodd y Panel a oes modd gwneud unrhyw beth i liniaru hyn. Esboniwyd bod gwaith astudio ac ymchwilio'n cael ei wneud i nodi'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal honno, ac efallai bydd datrysiad lleol a fydd yn cael ei roi ar waith. Hefyd, mae asesiad canlyniadau llifogydd strategol ar gyfer yr ardal honno yn Abertawe newydd gael ei gomisiynu.
- Gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch beth yw'r cynnig o dan y Diweddaraf am Weithrediad (paragraff 4) ac esboniwyd ei fod yn gynllun lle mae aelodau'r ward yn talu i dîm gylïau fod ar y safle ar benwythnosau lle mae angen sylw ar y gylïau.
- Gofynnodd y Panel a oes deddfwriaeth ar waith sy'n esbonio wrth bobl sy'n cloddio dreifiau ac yn gosod arwynebau caled artiffisial bod angen i'r rhain fod yn athraidd. Cytunodd Aelod y Cabinet i ddarparu ymateb ysgrifenedig llawn.

Camau Gweithredu:

- Rhannu dolen i wefan y Swyddfa Dywydd gyda'r Panel
- Trefnu hyfforddiant ar System Ddraenio Gynaliadwy ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio
- Rhannu rhestr goch ar y rhaglen cynnal a chadw gyda'r Panel
- Darparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag arwynebau athraidd.

## 6 **Rheoli Ansawdd Aer**

Roedd David Hopkins, Aelod y Cabinet dros Wasanaeth Corfforaethol a Pherfformiad a Tom Price, Arweinydd Tîm Rheoli Llygredd, yn bresennol i roi gwybodaeth i'r Panel ynghylch y mater hwn.

Pwyntiau Trafod:

- Holodd y panel a yw'r duedd ar gyfer llygredd o gerbydau modur yn lleihau ac esboniwyd bod dau brif lygrydd wedi'u cysylltu â cherbydau modur. Bu tuedd ar i lawr yn y tymor hir o ran Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) mewn crynodiad. Ar gyfer defnydd gronynnol, er ei fod yn gweld ychydig o duedd ar i lawr, mae'n rhy gynnar i ddatgan beth sy'n ysgogi hyn.
- Dywedodd y Panel fod bysus yn gadael eu peiriannau yn rhedeg y tu allan i Ysgol yr Esgob Gore, a gofynnodd beth ellir ei wneud am hyn. Cynigiodd Aelod y Cabinet i fynd â hyn yn ôl drwy'r gadwyn gaffael i sicrhau nad yw hyn yn digwydd mwyach.
- Gofynnodd y Panel a ddylid ystyried agosrwydd eiddo preswyl at ffyrdd prysur cyn rhoi caniatâd cynllunio. Esboniwyd ei fod yn cael ei ystyried fesul achos ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno asesiad ansawdd aer ar gyfer yr amgylchedd penodol.
- Holodd y Panel a yw ymchwil yn dangos a yw strydoedd sydd â choed ar ei hyd yn gwneud gwahaniaeth ystyrlon i ansawdd aer ac a oes gwahaniaeth sylweddol yn ansawdd aer rhwng cylchfannau a goleuadau traffig. Esboniwyd yn Abertawe, bydd yn cymryd amser i fonitro a dadansoddi data i weld a yw'r isadeiledd gwyrdd yn cael unrhyw effaith. Bydd ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu ynghylch a yw cylchfannau neu oleuadau traffig orau o ran ansawdd aer.

Camau Gweithredu:

- Ailgyflwyno sylwadau ar beiriannau segur y tu allan i ysgolion drwy'r gadwyn gaffael.
- Darparu gwybodaeth ynghylch a yw cylchfannau neu oleuadau traffig orau o ran ansawdd aer i'r Panel.

7 **Cynllun Waith 2023-24**

Ystyriodd y Panel y rhaglen waith a nodwyd yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am